

WJEC AS/A2 Graphic Design Level 3



Yn gwyno

Byddwch yn archwilio amrywiaeth o syniadau ac adnoddau perthnasol mewn perthynas â Dylunio Graffeg ac yn cynhyrchu ymatebion ymarferol i'r rhain, gan arddangos dealltwriaeth o'r arddulliau, genres a thraddodiadau gwahanol.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych yn greadigol

... Hoffwch ddilyn gyrfa mewn dylunio graffeg

... Ydych am gyfuniad o astudiaeth ddamcaniaethol ac ymarferol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn datblygu sgiliau mewn arddangos ystyr, swyddogaeth a diben i ddangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa neu gyd-destun bwriadedig i'ch dyluniad. Mae'r 15 wythnos



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

cyntaf o'r cwrs wedi'u dylunio i ddatblygu sgiliau presennol ac annog myfyrwyr i ddatblygu sgiliau newydd.

UG Uned 1: Ymholiad creadigol personol

Bydd yr aseiniad hwn yn para o Ionawr hyd at Fai, lle bydd corff o waith a chanlyniad terfynol yn cael eu cyflwyno i'w hasesu.

U Uned 2: Ymchwiliadau personol

Byddwch yn datblygu'ch briff eich hun i ddatblygu'ch astudiaethau ymhellach mewn aseiniad sy'n para 18 wythnos. Bydd disgwyl i chi gynhyrchu corff o waith, gydag elfen ysgrifenedig o 1000 gair a darn terfynol.

U Uned 3: Aseiniad wedi ei osod yn allanol

Mae'r uned hon o waith wedi'i gosod yn allanol gan CBAC. Cewch gyfnod paratoadol lle gallwch archwilio llwybrau astudio a phenderfynu arno. Yn ogystal, bydd gennych elfen reoledig o 15 awr i gynhyrchu darn o waith terfynol.

Bydd asesiadau'n cael eu cynnal 3 gwaith trwy gydol y flwyddyn academiaidd a phan fyddwch yn cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn cyflawni:

Dylunio Graffeg Lefel UG
Dylunio Graffeg Lefel U
Gweithgareddau sgiliau

[Saesneg a Mathemateg](#)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I ymrestru, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Mathemateg, Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg a Chelf TGAU Gradd C neu uwch.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth sy'n digwydd nesaf?

O Lefel UG, gallwch barhau â'r cwrs i'r ail flwyddyn astudio i ennill Lefel U cyflawn yn y pwnc hwn. Gall y rheiny sydd â chymhwyster Lefel U fynd ymlaen ar gwrs Astudio Diploma Sylfaen, cyn ymgymryd â gradd mewn Celf a Dylunio.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae ffi stiwdio o £10.00 a bydd disgwyl i chi brynu offer celf ar ffurf 'pecyn' sydd wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer gofynion y cwrs.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

